

'Ivor Novello a Barddoniaeth y Bobl'

gan Phil Carradice

Darlith Gomisiwn a draddodwyd yn ystod Estyn yn Ddistaw, dydd o fyfyrto ar farddoniaeth rhyfel a heddwch yng Nghymru. Trefnwyd gan Llenyddiaeth Cymru gyda chefnogaeth gan Raglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf Llywodraeth Cymru, Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918.

Roedd y Rhyfel Mawr, a daniodd go iawn ym mis Awst 1914, yn rhyfel sy'n cael ei gysylltu â sawl peth. Roedd yn rhyfel llawn cieidd-dra dychrynlyd; yn rhyfel a laddodd ac a glwyfodd ar raddfa echrydus; ac yn rhyfel lle bu datblygiadau technolegol rhyfeddol. Dyma hefyd y rhyfel llythrennog a llenyddol cyntaf erioed: rhyfel lle gallai bron i bawb a oedd yn rhan ohono ddarllen ac ysgrifennu.

Cyn 1914, a defnyddio geiriau Dug Wellington, milwyr yr Ymerodraeth Brydeinig oedd "baw isa'r domen"*. Roedd yntau a'r Is-gyrnol de Lancey, ei gynorthwydd, ar gefn eu ceffylau ger croesffordd Quatre Bras, yn gwyllo Byddin Prydain yn cilio heibio iddynt, un ar ôl y llall, yn y glaw. "Wn i ddim am y Ffrancwyr, ond maen nhw'n codi arswyd arna' i!"*

Roedd y rhan fwyaf o filwyr yn oes Wellington a thrwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dewis ymuno â'r fyddin yn hytrach na wynebu cyfnod yn y carchar – neu lwg. Dyma'n enwedig sut oedd hi yn lwerddon yn ystod blynyddoedd llwm y newyn.

Ond rhyfel y gwirfoddolwyr oedd y Rhyfel Mawr, rhyfel a ymladdwyd gan wŷr a oedd wedi dewis ymuno gan eu bod yn teimlo mai dyna'u dyletswydd. Yn 1914, prin fod 250,000 o filwyr ym Myddin Prydain, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gwasanaethu yng nghyrion pellaf yr Ymerodraeth. Roedd bron i filiwn o filwyr ym Myddin yr Almaen, a 1,350,000 ym myddin Rwsia. Roedd Prydain wastad wedi dibynnu ar ei llynges i'w hamddiffyn; roedd angen dynion arni bellach, a hynny'n ddiymdroi.

Dyma pryd y daeth yr Arglwydd Kitchener i'r adwy, gyda'i boster recriwtio enwog yn datgan bod ar y wlad a'r Brenin angen ei gwŷr. Disgwyliai gael 100,000 o wirfoddolwyr. Erbyn Nadolig 1914, roedd bron i filiwn wedi rhoi'u henwau gerbron.

Credai llawer o ddynion y byddai hyn yn antur, yn ddihangfa o'r rhigol dyddiol, diflas. Byddai modd torri'n rhydd o'r hualau daearyddol a chymdeithasol a oedd wedi'u cadw yn yr unfan gyhyd. Byddai hefyd yn helpu Prydain i roi "trwyn gwaed" hynod haeddiannol i'r Kaiser.

Diolch i Ddeddf Addysg Forster yn 1870, a wnaeth addysg gynradd yn orfodol, erbyn 1914 roedd pob dyn wedi bod drwy'r gyfundrefn addysg newydd ac yn gallu darllen ac ysgrifennu'n gymharol dda. Roedd hyn yn golygu bod y fyddin yn llawn unigolion addysgedig a galluog, a llawer o'r rheini'n bwriadu cofnodi'u profiadau. Fel y dywedodd rhywun, unwaith: roedd llyfrau mor gyffredin yn y ffosydd â pharseli o Fortnum and Masons – i'r swyddogion yn unig, wrth gwrs!

A'r hyn a ddeilliodd o'r sefyllfa hon oedd barddoniaeth a cherddi rif y gwllith gan y gwŷr yn y ffosydd a'u teuluoedd gartref. Pam?

Bron yn ddieithriad, pobl freintiedig oedd wedi bod i Ysgolion Bonedd oedd athrawon a rheolwyr Ysgolion Bwrdd newydd Forester – a'u rhieni wedi talu iddynt gael yr addysg honno. Wrth iddynt greu'r system addysg orfodol i blant Prydain, roedd hi'n naturiol iddynt ail-greu'r ysgolion a'r prosesau dysgu roeddent wedi'u profi yn eu bywydau'u hunain. Felly, fel yn yr Ysgolion Bonedd, prin fod unrhyw bwyslais ar wyddoniaeth, technoleg na mathemateg, ond roedd sylw mawr yn cael ei roi i farddoniaeth a rhyddiaith lenyddol.

Dysgai disgyblion farddoniaeth ar eu cof; roedd cerddi Tennyson a Virgil, Homer a Browning ar flaenau'u bysedd. Ac wrth gofnodi eu profiadau a'r hyn a welent, roedd hi'n anochel mai at farddoniaeth y byddent yn troi.

Roedd darllen a chreu barddoniaeth yn ddau beth hollol wahanol, fodd bynnag. Gallent adrodd a darllen barddoniaeth, a mwynhau ei pherfformio, ond byddai ceisio ail-greu cywreinrwydd mesurau Tennyson a'i debyg i raddau helaeth y tu hwnt i allu'r dynion yn y ffosydd. Roedd y syniad o fesur ei hun yn gwbl anghyfarwydd. Ac felly, i gael ysbrydoliaeth, dyma droi at dair ffynhonnell tra gwahanol i'w gilydd.

I ddechrau, dyna'r eglwys neu'r capel. Oes grefyddol oedd hon, ac roedd emynau Charles Wesley, William Williams (Pantycelyn) a'r lleill yn gyfarwydd i bawb. Byddai bri

mawr ar y rhythmau tonnog, a'r curiadau cryf. Efallai na fyddent wedi gallu ysgrifennu cystal, ond roedd y geiriau grymus hyn yn bendant yn ysbrydoliaeth.

Ac wedyn, wrth gwrs, dyna ichi ddylanwad rhywun y gallent ei efelychu, gŵr oedd wedi creu alawon teimladwy a geiriau am dorcalon a hiraeth a allai gyffwrdd pawb. Ei enw oedd Ivor Novello.

=====

Dyn rhyfeddol oedd Ivor Novello, neu David Ivor Davies, a rhoi iddo'i enw iawn. Fe'i ganwyd yng Nghaerdydd ym mis Ionawr 1893. Ei fam oedd y Fadam Clara Novello Davies, un o athrawon llais ac arweinwyr corau amlycaf ei hoes. Magwyd Ivor mewn tŷ llawn cerddoriaeth, ac roedd cantorion a pherfformwyr enwog fel Clara Butt ac Adelina Patti yn ymwelwyr rheolaidd.

O oedran ifanc, perfformiai Ivor mewn Eisteddfodau a digwyddiadau cerddorol eraill. Byddai wrth ei fodd yn gwisgo dillad ei fam – dylai hynny fod wedi rhoi arwydd o bethau i ddod. Un tro, bu'n rhan o gystadleuaeth i ferched – wedi'i wisgo fel merch. Enillodd ond cafodd ei ddiarddel pan ddarganfu'r beirniaid y gwir.

Cafodd Ivor ei addysg yng Nghaerdydd, Rhydychen a Chaerloyw. Roedd yn ddisgybl i Dr Herbert Brewer, organydd Cadeirlan Caerloyw. Ymhlith y myfyrwyr nodedig eraill yno ar y pryd roedd y cyfansoddwyr F. W. Harvey a Herbert Howells, ynghyd â'r bardd rhyfel, Ivor Gurney.

Roedd yn gas gan Ivor Novello gerddoriaeth yr eglwys, ac yntau'n gorfod ei chwarae a'i dysgu. Roedd yn well o lawer ganddo alawon ysgafnach, mwy bachog. Gadawodd â geiriau Brewer yn atseinio yn ei glustiau – "Wnei di fyth fywoliaeth o gerddoriaeth, was!"* Nid yn annhebyg i hanes y gŵr yn Decca Records a fyddai'n gwrthod y Beatles maes o law, gan ddatgan bod oes grwpiau canu pop ar ben. Neu'r naw cyhoeddwr a wrthododd nofel Harry Potter gyntaf J. K. Rowling!

Erbyn 1914, roedd Ivor yn creu enw iddo'i hun fel canwr/cyfansoddwr/athro, ond yna daeth y rhyfel. Penderfynodd Clara – neu Mam fel y byddai Ivor a sawl un arall yn ei galw – y dylai Ivor gyfansoddi alaw i'r milwyr, i roi hwb iddynt. Gwrthododd Ivor, felly eisteddodd Mam i lawr i gyfansoddi ei halaw ei hun.

Roedd honno'n echrydus, a sylweddolodd Ivor y byddai ei chyhoeddi a'i pherfformio yn sarnu'i henw da – a'i enw da yntau! Roedd yn rhaid iddo weithredu, ac mewn dim o dro roedd wedi creu'r darn o gerddoriaeth y byddai'r milwyr yn ei adnabod o dan yr enw, "We'll Keep the Home Fires Burning".

Dim ond y gerddoriaeth a gyfansoddodd Ivor. Yn wir, prin y byddai byth yn creu'r geiriau; byddai'n cyflogi pobl fel Christopher Hassell i gyfansoddi'r farddoniaeth i'r rhan fwyaf o'i ganeuon enwog. Y tro hwn, trodd at Lena Guilbert Ford, y bardd Americanaidd. Eisteddodd y ddau wrth y piano yn fflat Ivor yn Llundain. Ond roedd y geiriau'n pallu dod.

Go brin bod y stori'n wir, ond yn ôl yr hanes, ar yr ennyd honno daeth y forwyn i fewn i brocio'r tân. "Got to keep the fires of home burning brightly," meddai Ivor – a dyna ni, roedd y gytgan i'r gân wedi'i chreu. Aeth Lena gartref, cyfansoddi'r geiriau, a'u hadrodd dros y ffôn i Ivor.

Rai nosweithiau'n unig wedyn, perfformiwyd y gân am y tro cyntaf, yn Theatr Alhambra, gyda Sybil Vane yn canu ac Ivor yn cyfeilio ar y piano. Roedd yr ymateb yn unionsyth ac yn ysgubol. Bedair gwaith bu'n rhaid iddynt berfformio'r darn fel encôr ac ar y diwedd fe wyddai'r gynulleidfa "Home Fires" – "Till the Boys Come Home", fel y gelwid y gân yn swyddogol, ar ei chof.

Golygodd hyn enwogrwydd dros nos i Ivor Novello, ac roedd y gân yn boblogaidd yn y ffosydd ac yn ôl gartref o'r eiliad honno ymlaen. Gwaetha'r modd, ni fu Lena Ford fyw i fwynhau'r enwogrwydd. Fe'i lladdwyd gan gyrch Zeppelin yn 1915. Ond dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, "Home Fires" oedd y gân fwyaf poblogaidd o holl ganeuon y milwyr, a hwythau'n ei chanu o amgylch eu tanau coginio ac yn eu llochesi bob nos.

Nid pawb, fodd bynnag, oedd yn hoff ohoni. Tyngodd y bardd Siegfried Sassoon, pe bai'n goroesi'r rhyfel, y byddai'n dod o hyd i'r gŵr a gyfansoddodd yr "hen gân uffernol honno"* ac yn ei saethu. Goroesi a wnaeth, ac fe ddaeth o hyd i Ivor Novello hefyd. Ond yn hytrach na'i saethu, syrthiodd mewn cariad â'r gŵr ifanc, golygus. Fe gawsant garwriaeth fer. Ond byrhoedlog fu honno. Fel y dywedodd John Stuart Roberts, roedd Ivor yn "fflyrt llwyr a gasglai gariadon fel y casglai lelog"*.

Galwyd Ivor Novello i'r fyddin yn 1916. Dewisodd fod yn rhan o Lu Awyr Brenhinol y Llynges, yn bennaf gan ei fod yn hoffi'r lifrai a chan y gallai roi ei stamp ei hun arno gyda sgarffiau sidan a menig melfed. Gwaetha'r modd, roedd yn beilot affwysol o sâl. Cafodd ddamweiniau dirifedi, ac fe'i gwaharddwyd rhag hedfan yn y diwedd, wrth i'r llywodraeth ddatgan ei fod yn gwneud mwy i danseilio'r ymdrech ryfel na holl lu awyr yr Almaen ynghyd.

Fe'i hachubwyd gan Eddie Marsh, ysgrifennydd preifat personol i Winston Churchill a gŵr a oedd yn adnabyddus am ofalu am wŷr ifanc fel Rupert Brooke – a bellach, Ivor Novello. Drwy Eddie Marsh, symudwyd Ivor i'r Weinyddiaeth Awyr newydd yn Llundain, lle'r arhosodd fel clerck tan ddiwedd y rhyfel.

Nid oes dwywaith i Ivor achub bywyd Marsh, gan mai dim ond mater o amser oedd hi tan y byddai un o'i ddamweiniau wedi'i ladd. Rhoddodd Marsh hefyd hwb mawr i gerddoriaeth ysgafn Brydeinig. Yn y Weinyddiaeth Awyr, cafodd Novello amser i gyfansoddi caneuon, ynghyd â'r sioe gerdd "Theodore and Co" gyda Jerome Kern.

Ar ôl y rhyfel, dal i gynyddu wnaeth enwogrwyd Ivor. Daeth yn eilun sinema – er bod pawb yn gwybod ei fod yn hoyw – gan swyno menywod â'i harddwch a'i bersonoliaeth.

Actiodd mewn ffilmiau mud, gan weithio gyda phobl fel Alfred Hitchcock, yn fwyaf cofiadwy yn y ffilm gyffro, "The Lodger", oedd wedi'i seilio ar lofruddiaethau Jack the Ripper. Pan ddaeth ffilmiau sain i fod, llwyddodd Ivor i addasu'n rhwydd, gan hyd yn oed ail-greu "The Lodger".

Aeth i Hollywood, lle'r ysgrifennodd sgriptiau i'r diwydiant ffilmiau a oedd yn prysur flaguro. A'i dafod yn ei foch, fe ddywedodd yn ddiweddarach mae'i hoff sgript oedd honno ar gyfer ffilm gyntaf "Tarzan". Dim ond pedwar gair oedd wedi'i gyfrannu – "Me Tarzan – You Jane".

Parhaodd Ivor Novello i gyfansoddi caneuon – "We'll Gather Lilacs" ac ati. Er iddo gael ei ddedfrydu i bedair wythnos o garchar yn ystod yr Ail Ryfel Byd, am brynu petrol yn anghyfreithlon, roedd yn y boblogaidd tan y diwedd un – a ddaeth yn ddisymwth yn 1952.

=====

Y trydydd dylanwad mawr ar feirdd y ffosydd – byddai beirdd y bobl yn well disgrifiad – oedd y Theatrau Cerdd. O Glybiau Cân a Swper Llundain ar ddechrau oes Fictoria y datblygodd y rhain – clybiau lle gallai dyn neu fenyw dalu swllt a chael pryd poeth a noson o adloniant. Roedd yr adloniant yn y theatrau'n amrywio'n fawr, o acrobataid a rhyfeddodau, fel menyw a fyddai'n ysmegu pibell o dan ddŵr, i gantorion ac adroddwyr enwog.

Roedd cerddi fel "The Green Eye of the Little Yellow God", wedi'i hadrodd gan Bransby Williams a Barebone Tree, yn hynod boblogaidd, ac yn sicr o dawelu'r neuaddau swnllyd nes eu bod yn ddistaw fel y bedd. Anaml y byddai gwir sylwedd i'r caneuon neu'r cerddi, ond nid oedd hynny o bwys. Gallai perfformiwr da wastad guddio gwendidau'r darn.

I'r Theatrau Cerdd hyn y byddai'r dosbarth canol newydd yn tyrru i gael eu difyrru, sef yr union wŷr a oedd bellach yn y ffosydd ger Ypres a'r Somme. Fe wnaent unrhyw beth i osgoi llithro yn ôl i'r byd o dlodi yr oeddent newydd ddianc ohono, ac felly roedd y caneuon a'r cerddi oedd yn mynd â'u bryd yn bethau sentimental am aberth arwrol, am fabanod yn marw, ac am beryglon y ddiod gadarn.

Gwelodd y gwŷr yn y ffosydd yn fuan ei bod yn anodd iawn creu comedi da – rhywbeth yr oedd William Shakespeare wedi'i ganfod yn ôl yn yr unfed ganrif ar bymtheg! Deuai sentiment yn haws o lawer i'r milwyr, a hynny yn null Ivor Novello a'r Theatrau Cerdd.

Wrth gwrs, aeth beirdd y bobl â sentiment Novello i'r pegwn eithaf. Roeddent yn hiraethu am gartref – yn amlach na heb, bwythyn yng nghefn gwlad oedd hwnnw a rhosod o amgylch y drws, a mam oedrannus yn aros ar y trothwy am ei mab – ac fe wnaent unrhyw beth i ddianc o'r Uffern oedd newydd ymddangos yn annisgwyl ac yn sydyn o'u hamgylch. Fe anghofient yn bur gyfleus mai mewn llety gosod neu fflatiau dinesig yr oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi byw.

Ond roedd y cyfan o'r galon a'u hemosiynau'n ddiffuant. Pan fyddent am gyflwyno dwyster, byddent yn ysgrifennu am yr eos a'r ehedydd a'r enfys. Mae'n bur debyg y

byddent wedi wylo wrth ysgrifennu – ac mae'n sicr y byddai'u perthnasau wedi wylo wrth gael copïau yn y post.

Cafodd nifer o'r cerddi a gyfansoddodd y milwyr a'u teuluoedd lwyfan parod ym mhapurau newydd lleol a chenedlaethol Prydain. Yn y papurau hynny, byddai miloedd yn eu darllen. Ychydig gannoedd yn unig, os hynny, fyddai'n darllen gwaith Sassoon a Graves a'u tebyg. Ni welodd Wilfred Owen nac Edward Thomas erioed un o'u cerddi mewn print.

Roedd y dyn a'r ddynes gyffredin – ar y stryd ac yn y ffosydd – wedi dod o hyd i lais, ac i fforwm lle gallai pobl ddarllen a gwerthfawrogi eu gwaith. A'r cyfan diolch i Ivor Novello, y dyn bach o Gaerdydd, ac adroddwyr y Theatrau Cerdd fel Bransby Williams. Go dda nhw!

Phil Carradice, Chwefror 2019

*Cyfieithiadau gan Llenyddiaeth Cymru